Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Chwefror 13eg, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Y Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Fran Murphy, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Christopher Parish, Cyng Julia Jones, Cyng Roy Davies, Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Dim

Cof 255/ Chwefror / 08 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried

E/18173 I dynnu amodau 5&6 o'r caniatâd a roddwyd ar gais E/13994 (12.12.06). Mae hyn er mwyn rhannu'r parcio oddi wrth y siop a fflat yn 11, Adeiladau'r Banc ac er mwyn darparu annibyniaeth i'r anheddle er dibenion gwerthu
Sylw : Gofynnwyd i'r Clerc i ofyn am gopïau ysgrifenedig o amodau 5&6 sydd yn y cais dan sylw, yn ogystal ag estyniad i ystyried y materion yn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i Cynllunio CSC i gadw natur gymhleth yr ail ddatblygu yn ardal Adeiladau'r Banc mewn golwg wrth ystyried y cais.

E/18293 Estyniad llawr cyntaf ar y llawr gwaelod sydd eisoes yn bodoli yn 48, Heol Newydd.
Sylw : Dim gwrthwynebiadau.

Cof 256 / Chwefror/ 08 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio

Caniatawyd y ceisiadau cynllunio canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC.

E/18013 Estyniad un llawr yn 25, Heol Diana
E/17729 Newid defnydd yr ystafell gefn o ystafell storio i ystafell manwerthu/driniaeth yn 131, Heol Rhosmaen
E/17728 Dymchwel yr ysguboriau 'Dutch' (2) sydd mewn cyflwr gwael a gosod ysgubor 'Dutch' newydd yn Home farm, Parc Dinefwr
E/16029 Lle arddangos i'r siop ac addasu adeilad storio yn Peppercorn, Stryd y Brenin
E/16037 Cais adeilad rhestredig ar gyfer uwchben Peppercorn, Stryd y Brenin.
E/17569 Newid defnydd – swyddfa yn llawfeddygaeth deintyddol 15, Heol Newydd
E/17739 Addasu dau adeilad cynhenid segur yn ganolfan adeiladu draddodiadol yn Home Farm, Parc Dinefwr
E/15903 Mân waith yn Nhŷ'r Drenewydd, Parc Dinefwr.

E/16332 Newid defnydd, preswyl i swyddfa a mân newidiadau mewnol ac allanol yn Nhŷ'r Drenewydd, Parc Dinefwr.

Cof 257/ Chwefror / 08 Ni chafodd unrhyw Gynllunio ei Dynnu yn ôl.

Cof 258 / Chwefror / 08 Cludiant a Phriffyrdd

1. LlCC – rhybudd o newidiadau yn y cyfyngiadau aros ar hyd Heol Rhosmaen a Stryd y Bont. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan aelodau i'r cyfyngiadau yn Heol Rhosmaen.
   Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu yn nodi gwrthwynebiad y Cyngor i'r newidiadau yn Stryd y Bont. Roedd y Cynghorwyr yn dymuno mynegi eu barn y byddai'r newidiadau yn ei gwneud yn fwy peryglus i drigolion, oherwydd bod hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt groesi'r briffordd er mwyn mynd i'w cerbydau. Bydd copïau o'r llythyr yn cael ei anfon ymlaen at Adam Price AS, Rhodri Glyn Thomas AC yr Heddlu a'r papurau newydd lleol. Roedd y Cyngor yn siomedig ei bod yn ymddangos bod gwrthwynebiadau blaenorol a anfonwyd at LlCC wedi'u hanwybyddu.
2. Y Grid Cenedlaethol.- Llythyr yn hysbysu fod y bibell nwy wedi'i chwblhau. Nodwyd.

Cof 259 / Chwefror / 08 Goleuadau
Adroddwyd am olau stryd â nam arno yn Heol Latimer i'r Swyddog Technegol.

Cof 260 / Chwefror / 08 Trwyddedu – Parth. 44, Heol Rhosmaen
Rhoddwyd canlyniad yr Apêl hwn i'r cais a rhoddwyd caniatâd. Yr oriau agor fydd 8am tan 12 canol nos o ddydd Sul i ddydd Iau, a 8-1am nos Wener a nos Sadwrn. Bydd yna 30munud yn ychwanegol ar gyfer yfed y diodydd.

Cof 261 / Chwefror /08 Adroddiad Llwybrau Troed.

Trafodwyd rhybudd i wyro llwybr troed (69/1) ar hyd llwybr troed Crug Manor. Y Clerc i ymateb gan nodi bod y rhybudd wedi'i anfon allan wedi i'r gwaith gael ei gwblhau. Doedd yna ddim arwyddion i gyfeirio cerddwyr.
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â CSC mewn perthynas â'r cais gan un o'r trigolion yn gofyn i'r berth sy'n ffinio â'i eiddo gael ei chynnal a'i chadw.

Cof 262 / Chwefror / 08 Gohebiaeth
1. E bost gan Maddy Clark yn gofyn i'r Cyngor drafod y posibilrwydd o osod camerâu cylch gyfyng o ganlyniad i'r achosion diweddar o fwrgleriaeth. Gofynnwyd i'r Clerc wahodd y Rhingyll Neil Jones i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn.
2. Cais ar ran LlCC yn gofyn i Gynghorydd gymryd rhan mewn arolwg ar lein i randdalwyr. Cytunodd y Cadeirydd cynllunio, Cyng Fran Murphy i lanw'r holiadur.

Cof 263 / Chwefror / 08 Doedd yna ddim rhagor o fusnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00pm